O gorfoleddwn oll yn awr

Caneuon Ffydd: Rhif 557

O gorfoleddwn oll yn awr,
daeth golau'r nef i nos y llawr;
mae'r Gŵr a ddrylliodd rym y bedd
yn rhodio'n rhydd ar newydd wedd:
rhown fawl ar gân i'r uchel Dduw,
mae Crist ein Pasg o hyd yn fyw.

Nid arglwyddiaetha angau mwy
ar deulu'r ffydd, gwaredir hwy;
y blaenffrwyth hardd yw Mab y Dyn,
mae'r bywyd ynddo ef ei hun:
rhown fawl ar gân i'r uchel Dduw,
mae Crist ein Pasg o hyd yn fyw.

O cadwn ŵyl, mae'r aberth drud
yn iachawdwriaeth i'r holl fyd;
mae'r lefain newydd wedi'i roi,
a grym y gwir yn ddi-osgoi:
rhown fawl ar gân i'r uchel Dduw,
mae Crist ein Pasg o hyd yn fyw.

Os meirw oeddem, weiniaid trist,
bywheir ni oll yn Iesu Grist;
mor wynfydedig fydd ein braint,
cael etifeddiaeth gyda'r saint:
rhown fawl ar gân i'r uchel Dduw,
mae Crist ein Pasg o hyd yn fyw.

W. RHYS NICHOLAS, 1914 – 96

MYFYRDOD

Bu llawer o bobl dda iawn yn cerdded ar y ddaear hon, ac fe allech chi feddwl mai un o'r rheiny oedd Iesu o Nasareth y mae cymaint o sôn amdano yn y Beibl. Bu llawer o bobl farw dros achosion teilwng hefyd, ac fe allech chi feddwl mai dyna a wnaeth Iesu hefyd. Ond y gwir amdani yw ei fod wedi gwneud cymaint mwy na

hynny. 'Canys Crist ein Pasg ni a aberthwyd drosom ni' (1 Cor. 5:7, BWM). Gorfoleddu yn hynny mae W. Rhys Nicholas yn yr emyn Pasg hwn: 'Rhown fawl ar gân i'r uchel Dduw, mae Crist ein Pasg o hyd yn fyw.'

Cyn ein bod ni yn dathlu'r Pasg, roedd yr Iddewon yn cadw gŵyl er mwyn cofio am y ffordd y cawson nhw eu hachub o'r Aifft yn amser Moses pan aberthwyd oen er mwyn i'w waed gadw'r teulu yn ddiogel tra oedd y pla olaf yn mynd drwy'r tir. Iesu Grist yw ein hoen ni: 'Dyma Oen Duw, sy'n cymryd ymaith bechod y byd!', meddai Ioan Fedyddiwr amdano. Nid marw fel merthyr dros ryw achos da a wnaeth Iesu, felly, ond marw dros bob un ohonom ni er mwyn ein prynu o gaethiwed pechod i ryddid ynddo ef. Dim ond Iesu sy'n cynnig maddeuant inni am ein holl ddrygioni ac yn caniatáu inni gael perthynas â Duw a mynediad ato a heddwch gydag ef, trwy ddod â ni yn ffrindiau efo Duw yn hytrach nag yn rhai sy'n gweithio yn ei erbyn ac yn elynion iddo. Cawn ein hannog i gadw gŵyl o'r newydd gan yr emynydd, oherwydd bod 'Crist ein Pasg o hyd yn fyw'.

Bu Iesu'n fodlon gwneud yn iawn am bechodau pob un ohonom, ym mhob oes, a thrwy hynny ddangos y cariad mwyaf a welodd y byd erioed trwy farw ar groes drosom: 'Yn hyn y mae cariad: nid ein bod ni'n caru Duw, ond ei fod ef wedi ein caru ni, ac wedi anfon ei Fab i fod yn aberth cymod dros ein pechodau' (1 Ioan 4:10).

Roedd Duw yn fodlon ynddo, ac fe gododd Iesu o farwolaeth i fywyd eto. Dyna pam fod pawb sy'n ei adnabod mor llawen ar y Pasg. Sail y mawl yn y pennill olaf o'r emyn ydy geiriau Paul at yr Effesiaid: 'fe'n gwnaeth ni, ni oedd yn feirw yn ein camweddau, yn fyw gyda Christ' (Eff. 2:5). Ein braint fydd 'cael etifeddiaeth gyda'r saint', a chael bywyd go iawn a fydd yn para am byth oherwydd aberth Iesu, a'i fod eto'n fyw: 'A hyn yw bywyd tragwyddol: dy adnabod di, yr unig wir Dduw, a'r hwn a anfonaist ti, Iesu Grist' (Ioan 17:3).

GWEDDI

O Dduw Dad, gorfoleddwn am iti fod yn fodlon rhoi dy Fab yn aberth er ein mwyn. A ninnau gynt yn ddiobaith hebddo ef, yr wyt ti'n cynnig bywyd tragwyddol a'r nef yn gyfan inni: 'Canys Crist ein Pasg ni a aberthwyd drosom ni.' Amen.